



Nodiadau cymorth Arweiniad Ymgeisio

Grantiau Treftadaeth
y Loteri Genedlaethol
£250,000–£5 miliwn

Cynnwys




Gallwch glicio wrth fynd drwy'r ddogfen hon

Cyflwyniad	3	5. Ar ddiwedd y prosiect	17
1. Eich prosiect	4	6. Costau'r prosiect	18
2. Y dreftadaeth	7	7. Eich sefydliad	23
3. Rheoli eich prosiect	10	8. Dogfennau ategol	26
4. Canlyniadau'r prosiect	14	9. Gwybodaeth ychwanegol a datganiad	30

Cyflwyniad


Gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais am grantiau rhwng £250,000 a £5 miliwn. Felly dogfen gyfeiriol yn unig yw hon ac ni ddylid ei llenwi. Gallwch ddechrau eich cais ar-lein drwy fewngofnodi ar ein gwefan. [↗](#)

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau'r ffurflen gais fel y gallwch weld beth yr ydyn ni eisiau ei wybod cyn dechrau eich cais. Mae hefyd yn cynnwys nodiadau cymorth i'ch helpu i ateb y cwestiynau (sydd hefyd wedi eu cynnwys yn y ffurflen gais ar-lein pan gliciwch ar yr eicon hwn: )

Gallwch ond llenwi'r ffurflen gais lawn drwy fynd **ar-lein** [↗](#).

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y **canllawiau ar wneud cais** [↗](#) ymlaen llaw. Bydd y canllawiau yn eich helpu i baratoi eich cais; maen nhw'n cynnwys rhestr wirio i sicrhau eich bod yn barod i ymgeisio.

Cwestiynau'r ffurflen gais

Drwy gydol y ffurflen gais byddwch yn sylwi ar eiconau  wrth ymyl nifer o gwestiynau a datganiadau. Os cliciwch ar yr eicon bydd mwy o wybodaeth yn ymddangos am beth i'w gynnwys yn eich ateb, neu esboniad ar sut y mae rhan benodol o'r ffurflen yn gweithio.

- Yr uchafswm geiriau y gallwch ei gynnwys yw **10,000** gair. Ni fyddwch yn cael cyflwyno eich cais os byddwch yn mynd dros yr uchafswm hwn. Cofiwch fod llinell doriad yn y testun yn cyfrif fel gair cyfan. Os penderfynwch gopio a gludo testun yn syth i'ch cais, dylech adolygu eich cais cyn ei gyflwyno a newid pethau lle bo angen i sicrhau nad ydych wedi mynd dros yr uchafswm geiriau.
- Cofiwch gadw eich ffurflen gais wrth weithio drwyddi.
- Ni allwn asesu eich cais os collwch y dyddiad cau ar gyfer y rhaglen, os na fyddwch wedi cynnwys y dogfennau ategol cywir (peidiwch ag anfon mwy na'r hyn y gofynnwn amdano) neu os na fyddwch wedi ateb y cwestiynau i gyd.

Defnyddiwch iaith glir a syml a chofiwch gynnwys unrhyw ffeithiau neu ffigyrau fydd yn ein helpu i ddeall beth y bwriadwch ei wneud a pham.

Byddwn ond yn asesu eich cais os byddwch yn cynnwys y dogfennau ategol cywir ac yn ateb bob un o'r cwestiynau. Peidiwch ag anfon dogfennau ychwanegol eraill gyda'ch cais.



Rhoddir yr eicon hwn wrth ymyl dolenni at fwy o wybodaeth sydd ar gael ar-lein.

1. Eich prosiect

Enw eich sefydliad

Bydd hyn yn ymddangos yn awtomatig o'r wybodaeth a rhoddwyd i ni wrth gofrestru.

Cyfeirif y Prosiect

Yn ymddangos yn awtomatig.

Teitl y Prosiect

Cofiwch y cyhoeddir hwn ar ein gwefan a bydd yn cael ei weld gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

g Argymhellwn eich bod yn cadw eich teitl yn syml a phwrpasol. Ni all teitl y prosiect fod yn fwy na 15 gair.

1a. Ai dyma gais cyntaf eich sefydliad i ni? Ie/Na

Os na: dywedwch wrthym beth oedd cyfeirif a theitl prosiect eich cais mwyaf diweddar.

1b. Crynhoi eich prosiect

Mewn dim mwy na 200 o eiriau rhowch grynodedb o'ch prosiect, gallwch ddefnyddio pwyntiau bwled lle bo angen. Cofiwch mai'r crynodedb yw'r **unig** ran o'ch ffurflen gais fydd yn cael ei weld gan y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd yn cael ei gyflwyno ynghyd ag asesiad o'ch cais.

1c. Ble fydd eich prosiect yn digwydd?

Os bydd eich prosiect yn digwydd ar draws gwahanol leoliadau, defnyddiwch y cod post lle bydd y rhan fwyaf o'r prosiect yn digwydd.

Ar gyfer prosiectau tirlun, rhowch gyfeirif grid Arolwg Ordnans ar gyfer eich tirlun.

1d. Esboniwch pa anghenion a chyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw

g Cyfnod datblygu

Soniwch am unrhyw broblemau a chyfleoedd yn ymwneud â:

- sut y rheolir eich treftadaeth ar hyn o bryd, a'i chyflwr;
- sut y mae pobl yn cyfranogi yn y dreftadaeth ar hyn o bryd;
- sut y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r problemau a'r chyfleoedd hyn;
- soniwch am sut y mae eich prosiect yn cyd-fynd ag unrhyw strategaethau lleol neu raglenni mwy cyffredinol;
- soniwch am unrhyw arfarnu opsiynau ac ymarferoldeb a wnaed a pham y credwch mai'r prosiect yw'r opsiwn gorau a mwyaf hyfyw;
- os bydd eich prosiect yn gwella ardal o dirlun neu drefflun, disgrifiwch gyflwr presennol yr ardal.

g Cyfnod gweithredu prosiect

- Soniwch am unrhyw waith ymgynghori neu arolwg a wnaethoch yn y cam datblygu;
- Os ydych wedi cynhyrchu un, cyfeiriwch ni at eich cynllun cadwraeth;
- Lle bo angen, cyfeiriwch ni at eich cynllun gweithgareddau.

1e. Pam fod yn rhaid i'r prosiect fynd yn ei flaen yn awr?

g Eglurwch pam fod angen arian Loteri arnoch.

Cyfnod datblygu:

- Dywedwch os credwch fod eich treftadaeth mewn argyfwng;
- Dywedwch am unrhyw arian partneriaeth sydd ar gael i chi ar hyn o bryd ond na fydd ar gael yn y dyfodol;
- Eglurwch beth fydd yn digwydd os na chewch grant gennym;

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch wybodaeth am unrhyw waith ymchwil pellach a wnaethoch yn y cam datblygu.

1f. Dywedwch ba gyngor a gawsoch wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy**g Cyfnod datblygu:**

- Dywedwch os cawsoch unrhyw gyngor arbenigol.
- Dywedwch am unrhyw ymgynghori a wnaethoch â'ch cymuned leol a'r bobl fydd yn rhan o'ch prosiect. Dywedwch os yw hyn wedi dylanwadu ar gynigion eich prosiect.
- Dywedwch os cawsoch unrhyw gyngor cyn-gais ar faterion cynllunio a/neu ganiatâd adeiladau rhestredig.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch wybodaeth am unrhyw waith ymgynghori neu arolwg pellach a wnaethoch yn y cam datblygu. Lle bo angen, cyfeiriwch at eich cynllun gweithgareddau.

1g. Soniwch am y bobl fydd yn elwa o'ch prosiect

g Hoffem wybod mwy am y gwahanol bobl y bwriadwch eu denu drwy eich prosiect.

Soniwch am beth y bwriadwch ei wneud i oresgyn rhwystrau i gynnwys pobl mewn treftadaeth.

Cyfnod datblygu

Rhowch syniad o'r prif grwpiau o bobl fydd yn elwa o'ch prosiect.

Eglurwch sut y cafodd eich prosiect ei ddylunio i helpu i gael y grwpiau hyn i gyfranogi mwy yn eu treftadaeth;

Rhowch amcan o faint o gyfranogwyr fydd yn cymryd rhan yn eich prosiect.

Wrth gyfranogwyr, golygwch y bobl sy'n cymryd rhan yn eich prosiect yn hytrach na'r bobl sy'n cyfrannu eu hamser i helpu i ddarparu'r prosiect.

Cyfnod gweithredu prosiect

Rhowch wybodaeth benodol am y prif grwpiau o bobl fydd yn elwa o'ch prosiect. Lle bo angen, cyfeiriwch ni at eich cynllun gweithgareddau.

1h. Ydy'r prosiect yn cynnwys treftadaeth sy'n denu ymwelwyr?

Os ydyw: Dywedwch

- Faint o ymwelwyr a gawsoch yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?
- Faint o ymwelwyr y flwyddyn y byddwch yn eu disgwyl ar ôl cwblhau eich prosiect?

1i. A fydd eich prosiect yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth? Bydd/Na fydd

Os bydd: Pwy yw eich partneriaid?

Dylech ddarparu enw person cyswllt o bob sefydliad, a lle bo hynny'n berthnasol, sicrhau bod cynrychiolydd o bob un wedi'i ychwanegu at ddiwedd y Datganiad yn Adran naw.

Cofiwch, os bwriadwch weithio gyda sefydliad arall i gyflawni eich prosiect, hoffem weld eich cytundeb partneriaeth.

g Os bwriadwch weithio gyda sefydliad arall i gyflawni eich prosiect, hoffem weld eich cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen honno ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a chael ei llofnodi gan y partion i gyd. **Rhoddir enghraifft o gytundeb partneriaeth ar ein gwefan.**

Os yw eich partner yn berchen ar y dreftadaeth y byddwch yn gweithio arni, byddwn fel arfer yn gofyn iddynt hwythau hefyd gytuno i delerau'r grant.

Rhaid i chi ddarparu cytundeb partneriaeth os byddwch yn gweithio gyda sefydliad arall fydd yn darparu rhan sylweddol o'ch prosiect.

1j. Pa fesurau y byddwch chi'n eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a lleihau'r effeithiau amgylcheddol negyddol?

g Rydyn ni'n disgwyl i ymgeiswyr ystyried pa fesurau y medrant eu cymryd i greu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau rhai negyddol drwy eu prosiect. Dylai'r mesurau y byddwch yn eu cymryd fod yn briodol i faint eich prosiect.

Cynyddu enghreifftiau cadarnhaol

- cynyddu bioamrywiaeth (toeau gwyrdd, blychau adar ac ystumod, tyllau pryfaid, planhigion hoff gan weny, ayyb)
- defnyddio deunyddiau a chynhyrchion wedi eu hailgylchu, e.e. papur
- meddwl am brynu cynhyrchion a deunyddiau lleol a lleihau 'milltiroedd bwyd' mewn caffis
- annog teithio'n gynaliadwy, e.e ar fws neu drên, cerdded a beicio
- egluro wrth ymwelwyr sut y mae'r sefydliad yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac am y mesurau amgylcheddol a ddefnyddir ar y safle.

Lleihau enghreifftiau negyddol

- defnyddio llai o ynni (goleuadau LED, gwres mwy effeithlon, systemau rheoli gwell, etc) a defnyddio ynni adnewyddadwy/wedi'i gynhyrchu ar y safle
- defnyddio llai o ddŵr (ailgylchu dŵr llwyd, toiledau gwagu llai etc)

- defnyddio llai o blastig, yn enwedig plastigau untro'n unig
- cynhyrchu llai o wastraff ar y safle/dilyn polisi ailgylchu effeithiol

1k. Yn ogystal â chydabod eich grant fel y nodwn yn ein gofynion, rydyn ni'n disgwyl i chi ddarparu mynediad a/neu gynigion arbennig i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, neu'n flynyddol o leiaf. Eglurwch sut y byddwch yn gwneud hyn

g Mae hyrwyddo a chydabod y Loteri Genedlaethol yn un o amodau ein grantiau. Dylech ddarllen y canllawiau ar ein gwefan o ran beth yw'r gofynion sylfaenol ar hyn. Disgwylir i chi ddatblygu cynigion hyrwyddo a hybu arloesol a chreadigol a ddyluniwyd i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'n grantiau. Rhoddir enghreifftiau, a phethau eraill dychmygus a wnaeth brosiectau eraill, ar ein gwefan.

Os yw eich grant yn gofyn am fwy na £1m tuag at ofod arddangosfa, canolfan ymwelwyr, gardd gymunedol neu gyfleuster cyhoeddus arall newydd, hoffem hefyd drafod sut y gellid ymgorffori'r Loteri Genedlaethol yn enw'r gofod neu'r safle.

2. Y dreftadaeth

2a. Disgrifiwch dreftadaeth eich prosiect a pham ei bod yn bwysig i'ch sefydliad

g Cofiwch, rhaid i'ch prosiect ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU.

Cyfnod datblygu:

Disgrifiwch y dreftadaeth fel y mae heddiw. Os oes gwahanol fathau o dreftadaeth dan sylw, disgrifiwch bob un o'r rhain;

Eglurwch beth sy'n bwysig am y dreftadaeth. A yw'n:

- ffynhonnell o dystiolaeth neu wybodaeth;
- o ddiddordeb esthetig, artistig, pensaernïol, hanesyddol, naturiol neu wyddonol;
- o werth cymdeithasol neu gymunedol.

Eglurwch i bwy y mae'r dreftadaeth yn bwysig. Gallai hyn gynnwys arbenigwyr a/neu'r gymuned leol.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch ddiweddariad yn seiliedig ar y gwaith cynllunio a wnaethoch yn ystod y cyfnod datblygu, neu ein cyfeirio at eich cynllun cadwraeth os ydych chi wedi cynhyrchu un.

2b. Dewiswch y math o dreftadaeth sy'n disgrifio eich prosiect orau:

Cofiwch y gallwch ddewis dim ond un opsiwn.

- Casgliadau
- Treftadaeth Gymunedol
- Tirluniau a Natur
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion
- Diwydiannol, Morol a Thrafnidiaeth
- Diwylliannau ac Atgofion
- Arall

g Treftadaeth Gymunedol

Prosiectau'n canolbwyntio ar ystod o dreftadaeth mewn cymuned ddaearyddol, neu brosiectau am gymuned fuddiant/cefndir cymdeithasol neilltuol.

Diwydiannol, Morol a Thrafnidiaeth

Awyrennau, cerbydau, locomotifau, cerbydau trên, llongau a chychod, neu adeiladau, seilwaith arbennig/peirianwaith a strwythurau gosod (e.e. mwyngloddiau) sy'n gysylltiedig â'n hanes morol, trafndiaeth neu ddiwydiannol.

Diwylliannau ac Atgofion

Er enghraifft prosiectau'n canolbwyntio ar gasglu hanes llafar, ar draddodiadau diwylliannol fel cerddoriaeth neu ffasiwn, neu brosiectau am dreftadaeth iaith a thafodieithoedd.

2c. A gredwch fod y dreftadaeth mewn perygl? Ydy/Nac ydy

Os ydyw: Eglurwch pam eich bod yn credu bod y dreftadaeth mewn perygl a sut.

g Cam datblygu:

Esboniwch yn fyr pam mae'r dreftadaeth dan fygythiad, a pha gamau a gymerwyd (os o gwbl) i leihau'r risg. Gallai fod mewn perygl o golli trwy ddifrod corfforol neu esgeulustod, diffyg ariannol neu bobl sy'n trosglwyddo yn achos hanesion llafar a chymunedol.

Os yw'ch prosiect yn cynnwys adeilad neu heneb, dywedwch wrthym a yw ar y gofrestr adeiladau neu henebion sydd mewn perygl.

Os yw'ch prosiect yn cynnwys nifer o adeiladau mewn ardal gadwraeth, dywedwch wrthym a yw'r ardal gadwraeth ar y gofrestr sydd mewn perygl.

Os yw'ch prosiect yn cynnwys treftadaeth naturiol, dywedwch wrthym a yw'r dirwedd, daeareg, cynefin neu rywogaethau mewn perygl ac ym mha ffordd (er enghraifft, a nodwyd mewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth fel blaenoriaeth).

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch diweddariad yn seiliedig ar y gwaith cynllunio a wnaethoch yn ystod y cyfnod datblygu, neu ein cyfeirio at eich cynllun cadwraeth os ydych chi wedi cynhyrchu un.

2d. A oes gan y dreftadaeth unrhyw ddynodiad ffurfiol?

Dewiswch yr opsiynau sy'n berthnasol.

2e. A fyddwch yn gwneud unrhyw waith cyfalaf yn y prosiect? Byddwn/Na fyddwn

Os byddwch: Dywedwch:

- beth yw enw'r adeilad(au), casgliadau, tirluniau neu gynefin;
- a oes angen unrhyw Ganiatâd Statudol neu Drwydded i gyflawni eich prosiect;
- ydy'r pethau hyn yn eu lle?

g Gwaith Cyfalaf

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu wella ased.

Wrth waith cyfalaf, golygwn ddigideiddio, cadwraeth arteffactau a gwrthrychau, gwaith trwsio a chadwraeth neu waith adeiladu newydd.

Er enghraifft, byddai cadwraeth rhostir, gwaith trwsio cofeb ryfel ac i ddigideiddio archif ffotograffig i gyd yn cael eu hystyried i fod yn waith cyfalaf.

Ar gyfer prosiectau'n cynnwys gwaith ffisegol, er enghraifft cadwraeth adeilad hanesyddol neu waith adeiladu newydd, dylid darllen yr adran perchnogaeth yng nghanllawiau'r rhaglen a chyfeirio at y canllawiau ar dderbyn grant.

Caniatadau Statudol neu Drwyddedau

Er enghraifft, Caniatâd Adeilad Rhestredig, Caniatâd Cynllunio, Caniatâd Heneb Gofrestredig, Caniatâd Eglwysig, Trwyddedau Ystumod neu i Gwmpo Coed etc.

Nid oes angen i chi fod wedi derbyn Caniatadau Statudol a/neu Drwyddedau cyn gwneud cais yn y cyfnod datblygu.

Ond rhaid i bob Caniatâd Statudol a/neu Drwydded fod yn eu lle cyn dechrau'r prosiect.

2f. Os ydych am wneud unrhyw waith cyfalaf (gan gynnwys trwsio, ailwampio etc) i dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth, dywedwch pwy sy'n berchen arnynt

Dewiswch yr opsiynau sy'n berthnasol i'ch treftadaeth.

g Cofiwch ddarllen yr adran *perchnogaeth* yng nghanllawiau'r rhaglen a chyfeirio at y canllawiau ar dderbyn grant.

A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r dreftadaeth a allai effeithio ar y prosiect?

Os oes: Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

A oes arolwg cyflwr wedi'i wneud o'r ased dreftadaeth yn y pum mlynedd diwethaf?

Os dewisoch 'Eich sefydliad', dywedwch:

- Os eich sefydliad yw rhydd-ddaliwr yr adeilad neu'r tir, neu os yw'n berchen yn llwyr ar yr eitemau treftadaeth;
- Os oes gan eich sefydliad brydles ar y tir neu'r adeilad a faint o flynyddoedd sydd ar ôl ar y brydles;
- Os yw eich sefydliad wedi, neu os ydych yn bwriadu cael morgais neu fenthyciad arall wedi'i warantu gan yr adeilad neu'r tir neu'r eitem dreftadaeth;
- Os felly, rhowch fanylion y benthycwr a swm y morgais neu'r benthyciad.

Os dewisoch 'Partner y prosiect', dywedwch:

- Beth yw enw'r sefydliad partner
- Os eich partner yn y prosiect yw rhydd-ddaliwr yr adeilad neu'r tir, neu os yw'n berchen yn llwyr ar yr eitemau treftadaeth
- Os oes gan eich partner yn y prosiect brydles ar y tir neu'r adeilad a faint o flynyddoedd sydd ar ôl ar y brydles
- Os yw eich partner yn y prosiect wedi neu'n bwriadu cael morgais neu fenthyciad arall wedi'i warantu gan yr adeilad neu'r tir neu'r eitem dreftadaeth
- Os felly, rhowch fanylion y benthycwr a swm y morgais neu'r benthyciad

Os dewisoch 'Yr un o'r ddau': Os nad ydych ar hyn o bryd yn bodloni ein gofynion perchnogaeth, dywedwch bryd y byddwch yn disgwyl gwneud.

A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r ased dreftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?

Os oes: Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

- A oes arolwg cyflwr wedi'i wneud o'r ased dreftadaeth yn y pum mlynedd diwethaf?

2g. Ydy eich prosiect yn cynnwys prynu adeilad, tir neu eitemau treftadaeth?

g Darllenwch yr adran ar brynu tir ac adeiladau a'r adran ar brynu eitemau treftadaeth a chasgliadau yng nghanllawiau'r rhaglen gan gyfeirio at y canllawiau ar dderbyn grant.

3. Rheoli eich prosiect

3a. Ydy eich sefydliad wedi darparu prosiect tebyg o ran maint a sgôp yn y 5 mlynedd diwethaf? Do/Naddo

Os do: Rhowch fanylion byr os gwelwch yn dda.

3b. Dywedwch pam y credwch mai hwn yw'r prosiect mwyaf priodol i'ch sefydliad ar hyn o bryd



- Pa strategaethau eraill a ystyriwyd?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud os na fydd y prosiect yn digwydd?

3c. A oes angen i'ch sefydliad wneud unrhyw waith meithrin gallu er mwyn darparu eich prosiect yn well?

Cam datblygu:

Er enghraifft, a oes angen i chi adolygu eich systemau ariannol neu adnoddau dynol, datblygu eich cynllun busnes neu datblygu'r gallu i godi arian?

A oes angen i chi ddod ag unrhyw sgiliau neu arbenigedd ychwanegol?

Dywedwch wrthym a fyddwch yn gwneud newidiadau i lywodraethu eich sefydliad, i'ch galluogi i gyflwyno'ch prosiect yn fwy effeithiol. Gallwch gynnwys costau cefnogaeth broffesiynol ar gyfer adolygiad llywodraethu.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Pa waith ydych chi wedi'i wneud i gryfhau gallu eich sefydliad i gyflawni'r prosiect hwn?

3d. Dywedwch am y swyddi a/neu'r prentisiaethau y byddwch yn eu creu i ddarparu eich prosiect

Cyfnod datblygu:

Rhowch amcangyfrif o unrhyw swyddi a/neu brentisiaethau a fydd yn cael eu creu a byddant yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'ch prosiect. Dywedwch wrthym beth yw eu prif swyddogaethau ac a ydynt yn swyddi llawn amser neu'n rhan amser.

Os ydych chi'n symud aelod presennol o staff i swydd a grëwyd gan y prosiect hwn, neu ymestyn oriau aelod presennol o staff, dywedwch wrthym sut y maen nhw'n gymwys ar gyfer y rôl a grëwyd gan y prosiect.

Disgrifiwch sut y byddwch chi'n dewis y staff.

Bydd angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob rôl a grëwyd ar gyfer cam cyflawni eich prosiect fel dogfen ategol i'ch cais.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Diweddariad yn unol â gwaith cynllunio yr ydych wedi'i wneud yn ystod eich cyfnod datblygu.

Os ydych chi'n symud aelod presennol o staff i swydd a grëwyd gan y prosiect hwn, neu ymestyn oriau aelod presennol o staff, dywedwch wrthym sut y maent yn gymwys ar gyfer y rôl a grëwyd gan y prosiect. Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n rheoli'r gwaith y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd, neu os yw hyn yn dod i ben.

Bydd angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob rôl a grëwyd ar gyfer cam cyflawni eich prosiect fel dogfen ategol i'ch cais.

Y Cam Datblygu

3e. Pa waith y byddwch yn ei wneud yn ystod cam datblygu'r prosiect?

g Darllenwch am y prif dasgau y bydd angen i chi eu cwblhau yn ystod y cam datblygu, yng nghanllawiau'r rhaglen.

Dywedwch sut y byddwch yn cynhyrchu'r holl ddogfennau ategol sy'n rhaid eu cyflwyno gyda'ch cais cyfnod gweithredu prosiect.

Yr Iaith Gymraeg

Os ydych yn darparu eich prosiect yng Nghymru, bydd angen i chi ddisgrifio sut y byddwch yn hyrwyddo a chefnogi'r Iaith Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

3f. Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam datblygu eich prosiect?

g Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm fydd yn gweithio ar eich cam datblygu, gan gynnwys y person fydd yn bennaf gyfrifol.

Eglurwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bwriadwch gynnal cyfarfodydd.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau fydd eu hangen arnoch yn y cam datblygu.

Bydd hefyd angen i chi anfon y canlynol atom:

- briffiau i unrhyw gwmnïau ymgynghorol ar gyfer eich cam datblygu.

3g. Rhaid i chi gwblhau amserlen fanwl ar gyfer cam datblygu eich prosiect

g Dylech lenwi'r tabl gyda thasgau penodol yn ystod eich cam datblygu a dweud pwy fydd yn arwain ar y gweithgareddau hyn.

Dywedwch bryd y gobeithiwch gyflwyno eich cais cyfnod gweithredu prosiect.

Gallwch ychwanegu mwy o benawdau ar gyfer y tasgau y byddwch yn eu darparu.

Cynllun Gweithredu Ardal

Os yw eich prosiect yn ymwneud ag ardal o dreflun, tirlun neu'n cael ei ddarparu mewn sawl lle, efallai y byddai'n well gennych gynhyrchu Cynllun Gweithredu Ardal yn lle cynllun cadwraeth, cynllun gweithgareddau a chynllun rheoli a chynnal ar wahân.

3h. Dywedwch am y risgiau i gam datblygu eich prosiect a sut y bwriadwch eu rheoli

g Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd y bydd angen i chi eu hadnabod a'u rheoli. Rydyn ni eisiau i chi fod yn realistig am y risgiau y gallai eich prosiect eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i'w rheoli.

Defnyddiwch y tabl i ddweud wrthym am y risgiau i'ch cam datblygu. Gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y botwm gwybodaeth ar gyfer cwestiwn 3m.

Pan fyddwch yn cychwyn ar y cam datblygu, mae'n debyg y bydd cynigion eich prosiect yn eithaf amlinellol. Gallai'r wybodaeth a gasglwch yn y cam datblygu drwy'r gwaith ymgynghori ac arolwg olygu y bydd angen mwy o amser arnoch na'r disgwyl ar gyfer y cam datblygu, neu fod angen i chi wneud mwy o waith ymchwilio na'r disgwyl. Bydd ystyried y risgiau hyn yn awr yn eich helpu i'w rheoli os byddant yn codi.

Cam Darparu

3i. Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam darparu eich prosiect?

g Cyfnod datblygu:

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm fydd yn gweithio ar eich cam darparu, gan gynnwys y person fydd yn bennaf gyfrifol.

Dywedwch a fydd angen cymorth ychwanegol gan ymgynghorwyr, neu staff newydd, arnoch.

Eglurwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bwriadwch gynnal cyfarfodydd.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm fydd yn gweithio ar eich cam darparu, gan gynnwys y person fydd yn bennaf gyfrifol.

Eglurwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bwriadwch gynnal cyfarfodydd.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau sydd eu hangen yn ystod eich cyfnod cyflwyno.

Bydd angen i chi hefyd anfon atom:

- Strwythur rheoli prosiect;
- Briffiau ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr.

Os ydych chi'n anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth uchod.

3j. Pa waith y byddwch yn ei wneud yn ystod cam darparu'r prosiect?

g Cyfnod datblygu:

Rhowch amlinelliad am ba waith y bydd eich prosiect yn ei wneud yn ystod y cam datblygu.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch amlinelliad am ba waith y bydd eich prosiect yn ei wneud yn ystod y cam gweithredu prosiect.

Yr Iaith Gymraeg:

Os ydych yn darparu eich prosiect yng Nghymru, bydd angen i chi ddisgrifio sut y byddwch yn hyrwyddo a chefnogi'r Iaith Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

3k. Sut y bwriadwch reoli'r llif arian ar gyfer eich cam darparu?

g Mae taliadau grant yn cael eu talu'n ôlweithredol (ac eithrio grant datblygu o lai na £100k – wele'r canllawiau ar dderbyn grant am fwy o fanylion) felly bydd angen i chi sicrhau y gallwch reoli'r llif arian yn llwyddiannus ar gyfer gwariant eich prosiect i osgoi mynd i drafferthion ariannol.

Bydd angen i chi ddarparu amcan o'ch llif arian gyda'ch cais cyfnod gweithredu prosiect.

Cyfnod datblygu:

Dywedwch am unrhyw gronfeydd ariannol, incwm o'ch sefydliad, neu ffynonellau cyllid eraill y bwriadwch eu defnyddio fel llif arian ar gyfer cam darparu eich prosiect.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am sut y byddwch yn ariannu eich cyfnod gweithredu prosiect.

3l. Rhaid cwblhau amserlen gryno ar gyfer cam darparu eich prosiect

Cwblhewch y tabl.

g Cyfnod datblygu:

Nodwch y prif dasgau yn eich cam darparu, gan gynnwys gwaith cyfalaf a gweithgareddau i annog pobl i gyfranogi mewn treftadaeth. Bydd y pennawd 'dyddiad cwblhau ymarferol disgwylidig' yn ymddangos yn awtomatig yn yr amserlen, sef y dystysgrif cwblhau ymarferol fydd yn cael ei rhoi gan eich contractwr tuag at ddiwedd prosiect cyfalaf. Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, nodwch y dyddiad y cyflwynir hon yn y colofnau 'dyddiad dechrau' a 'dyddiad gorffen'. Mae hyn yn debygol o fod fwyaf perthnasol yn y cyfnod gweithredu prosiect.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Bydd angen i chi ddarparu amserlen fanwl ar gyfer eich cyfnod cyflwyno gyda'ch cais ail rownd. Dylai gynnwys pob rhan o'ch prosiect, megis dewis ymgynghorwyr, unrhyw ymchwil neu ymgynghoriad pellach sy'n angenrheidiol, dylunio, adolygiadau, gweithgareddau a gwerthuso.

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf, dylech gynnwys y camau RIBA sy'n weddill o'r prosiect yn unol â Chynllun Gwaith RIBA (2013) yn ogystal â nodi'r dyddiad cwblhau ymarferol disgwylidig. Os ydych chi'n anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth.

3m. Dywedwch am y risgiau i gam darparu eich prosiect a sut y bwriadwch eu rheoli

g Cyfnod datblygu:

Defnyddiwch y tabl i ddweud wrthym am y risgiau i'ch cam darparu.

Rydyn ni eisiau i chi fod yn realistig am y risgiau y gallai eich prosiect eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i'w rheoli. Gallai'r risgiau fod yn rhai:

- technegol – er enghraifft, darganfod tamprwydd eang ac annisgwyl
- ariannol – er enghraifft, llai o gyfraniad gan ffynhonnell gyllid arall
- trefniadol – er enghraifft, diffyg pobl gyda'r sgiliau sydd eu hangen neu staff sydd eu hangen i weithio ar brosiectau eraill
- economaidd – er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- cymdeithasol – er enghraifft, ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged
- rheolaethol – er enghraifft, newid sylweddol i dîm y prosiect

- cyfreithiol – er enghraifft, newid yn y gyfraith sy'n gwneud y prosiect yn anymarferol
- amgylcheddol – er enghraifft, trafferth dod o hyd i ffynhonnell goed o fforestydd a reolir yn dda

Bydd y risgiau y byddwch yn eu hadnabod yn effeithio ar faint o arian wrth gefn y byddwch yn ei neilltuo yn Adran 6: Costau'r prosiect.

3n. Pryd ydych yn disgwyl i gam darparu eich prosiect ddechrau a gorffen?

g Ni fyddwch yn gallu dechrau ar gam darparu eich prosiect hyd nes y bydd eich cais yn llwyddiannus.

3o. A oes unrhyw derfynau amser penodedig neu gerrig milltir allweddol fydd yn cyfyngu ar amserlen eich prosiect? Oes/Nag oes

Os oes: Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

g Dywedwch am unrhyw ddyddiadau disymud fydd yn effeithio ar eich prosiect ac sydd y tu allan i'ch rheolaeth.

Er enghraifft:

- dyddiadau pan ddaw cynigion arian partneriaeth i ben, neu erbyn pryd y mae'n rhaid gwario cyllid a gafwyd;
- dyddiadau penodol y dyluniwyd eich prosiect ar gyfer eu dathlu;
- digwyddiadau allanol sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect.

4. Canlyniadau'r prosiect

Dewiswch y canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni a sut:

Rydyn ni'n disgwyl, o leiaf, i chi gyflawni'r canlyniad 'Bydd ystod eangach o bobl yn cyfranogi mewn treftadaeth.

g Gellir disgrifio canlyniadau fel newidiadau, effeithiau, manteision neu unrhyw effaith sy'n digwydd o ganlyniad i'r prosiect.

Bydd nifer eich canlyniadau'n amrywio gan ddibynnu ar y math o brosiect a dylent fod yn gymesur â maint y grant yr ydych yn gofyn amdano, neu â ffocws penodol eich prosiect. Rydyn ni'n disgwyl i brosiectau gyflawni rhai canlyniadau'n gryfach nag eraill. Er y gallai eich prosiect gyflawni mwy'n anuniongyrchol, dylech ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd gryfaf, oherwydd byddwn yn monitro eich cynnydd a byddwch yn eu defnyddio yn eich gwerthusiad.

Cofiwch:

- os bydd eich cais yn llwyddo, disgwylir i chi adrodd yn erbyn y canlyniadau a ddewiswch

Bydd ystod ehangach o bobl yn cyfranogi mewn treftadaeth

g Bydd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth a bydd y gynulleidfa yma'n fwy amrywiol na chyn cyflawni eich prosiect. Bydd newidiadau wedi digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i'ch prosiect, ac yn enwedig yn sgîl eich gwaith datblygu cynulleidfa ac ymgynghori â'r gymuned, drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y bobl sy'n cyfranogi yn eich treftadaeth – a'r bobl nad ydynt – cyn, yn ystod ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Gallwch ddangos bod proffil eich cynulleidfa wedi newid; er enghraifft, mae'n cynnwys pobl o ystod ehangach o oedranau, tarddiadau ethnig a chefnidiroedd cymdeithasol; mwy o bobl anabl; neu grwpiau o bobl nad ydynt erioed wedi ymwneud â'ch treftadaeth o'r blaen. Gallwch ddangos sut y mae mwy o bobl, a gwahanol bobl, yn cyfranogi mewn treftadaeth fel ymwelwyr, fel cyfranogwyr mewn gweithgareddau, neu fel gwirfoddolwyr, yn ystod ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Bydd y dreftadaeth mewn cyflwr gwell

g Bydd gwelliannau i gyflwr ffisegol eich treftadaeth. Gallai'r gwelliannau fod o ganlyniad i waith trwsio, adnewyddu neu i atal dirywiad pellach, fel trwsio to adeilad hanesyddol, cadwraeth archifau, clirio ffosydd mewn cae neu atgyweirio llong. Gallai gwelliannau hefyd ddeillio o waith newydd, er enghraifft cynyddu maint cynefin er budd i rywogaethau blaenoriaeth, neu godi adeilad newydd i ddiogelu adfeilion hanesyddol, archaeoleg neu gerbydau.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Byddwch yn gallu adnabod y gwelliannau drwy'r safonau a ddefnyddir gan arbenigwyr proffesiynol a threftadaeth, a/neu gan bobl yn fwy cyffredinol, er enghraifft mewn arolygon ymwelwyr neu drigolion lleol.

Bydd treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well

g Bydd eglurhad cliriach a/neu ffyrdd newydd neu well o helpu pobl i wneud synnwyr o'r dreftadaeth. Gallai hyn gynnwys arddangosfeydd newydd mewn amgueddfa; ap ffôn clyfar gyda gwybodaeth am fioamrywiaeth a geoamrywiaeth y tirlun; sgysiau neu deithiau o gwmpas adeilad hanesyddol; llawlyfr hygyrch i dŷ hanesyddol; neu wybodaeth ar-lein am archifau.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Bydd ymwelwyr a defnyddwyr yn dweud wrthyhch fod y dehongli a'r wybodaeth a gyflwynir o ansawdd uchel, yn hawdd i'w defnyddio ac yn briodol i'w hanghenion a'u diddordebau, gan ehangu ar eu dealltwriaeth a gwella eu profiad o dreftadaeth.

Bydd pobl wedi datblygu sgiliau

g Bydd unigolion wedi ennill sgiliau sy'n berthnasol i sicrhau bod treftadaeth yn derbyn gofal gwell ac yn cael ei rheoli, ei deall neu ei rhannu'n well (gan gynnwys, ymhlith eraill, sgiliau cadwraeth, addysgu/hyfforddi, cynnal a chadw, digidol a rheoli prosiect). Gallai gweithgareddau hyfforddi gynnwys rhaglen fentora anffurfiol, hyfforddiant mewn swydd neu gysiau byr allanol.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Bydd pobl a fu'n ymwneud â'ch prosiect, gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr, yn gallu dangos eu bod yn gymwys mewn sgiliau newydd a phenodol, a lle bo hynny'n brio

Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth gan arwain at newid syniadau a gweithredoedd

g Bydd unigolion wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dreftadaeth wrth i chi roi cyfle iddynt brofi treftadaeth mewn ffyrdd sy'n ateb eu hanghenion a'u diddordebau.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Bydd oedolion, plant a phobl ifanc a gymrodd ran yn y prosiect, neu sy'n ymweld â'ch safle neu sy'n cyfranogi yn eich treftadaeth mewn ffyrdd eraill, e.e. drwy dechnoleg ddigidol, yn gallu dweud am yr hyn a ddysgwyd ganddynt am dreftadaeth a pha wahaniaeth y mae'n ei wneud iddyn nhw a'u bywydau. Byddant hefyd yn gallu dweud wrthyhch ba ddefnydd y maen nhw'n ei wneud o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yma; er enghraifft ei rhannu â phobl eraill, ei defnyddio yn eu bywyd proffesiynol neu gymdeithasol, neu i astudio ymhellach.

Bydd lles pobl wedi gwella

g Bydd unigolion yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'r bobl o'u cwmpas a/neu â lle maen nhw'n byw o ganlyniad i gymryd rhan yn eich prosiect – dyma'r hyn a olygwn wrth les gwell. I gyflawni'r canlyniad hwn, dylid dylunio eich prosiect i gael effaith ar les (a'i ddatblygu gyda sefydliadau arbenigol os bwriadwch gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu bobl gydag anableddau dysgu). Gallwch efallai ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn fwy egniol (er enghraifft, gwirfoddoli mewn parc, cymryd rhan mewn archeoleg gymunedol, rhannu sgiliau digidol) neu i greu cysylltiadau newydd ag eraill.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Byddwch chi neu eich gwerthuswr allanol yn defnyddio dulliau gwerthuso cydnabyddedig i fesur lles a gofyn i bobl a gymrodd ran sut y maen nhw'n teimlo.

Bydd cyfranogwyr yn dweud eu bod yn hapusach, yn fwy bodlon a/neu fod bywyd yn teimlo'n fwy gwerth chweil o ganlyniad i gymryd rhan yn eich prosiect. Gallai rhai ddweud eu bod yn teimlo'n llai gorbryderus.

Bydd y sefydliad a dderbyniodd y grant yn fwy gwydn

g Bydd gan eich sefydliad fwy o gapasiti i wrthsefyll bygythiadau ac i addasu i amgylchiadau newydd i greu dyfodol mwy sicr i chi. Byddwch yn dod yn fwy gwydn drwy drefniadau llywodraethu cryfach a chael mwy o bobl leol i gyfranogi yn eich sefydliad; drwy gynyddu sgiliau staff a rheoli; drwy ennill ffynonellau cynghori ac arbenigedd newydd a thrwy weithio mewn partneriaeth i rannu gwasanaethau, staff ac adnoddau.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Efallai y bydd gennych wirfoddolwyr newydd sy'n cynyddu eich capasiti a'ch sgiliau; neu incwm newydd o weithgareddau masnachol, rhaglenni codi arian newydd neu waddol newydd. Byddwch yn gallu dangos bod eich sefydliad yn gryfach ac mewn sefyllfa well at y dyfodol o ganlyniad i'r newidiadau a wnaethoch drwy'r prosiect.

Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld â hi

g Bydd gan drigolion lleol fywyd o ansawdd gwell a bydd yr ardal yn gyffredinol yn fwy deniadol. O ganlyniad i wella edrychiad safleoedd treftadaeth neu oherwydd y cyfleoedd a roesoch i bobl leol i ymweld, defnyddio, cymryd rhan a mwynhau'r dreftadaeth, bydd trigolion yn dweud bod ganddynt fwy o falchder yn eu hardal leol ac ymdeimlad cryfach o berthyn iddi.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Bydd pobl yn y gymuned yn dweud bod ganddynt deimlad gwell o gyd-ddealltwriaeth ac o gyd-dynnu â'i gilydd. Bydd ymwelwyr i'ch treftadaeth hefyd yn dweud bod yr ardal wedi gwella'n uniongyrchol o ganlyniad i'ch prosiect a'r hyn sy'n werthfawr iddynt amdani.

Bydd yr economi leol wedi cael hwb

g Bydd gan fusnesau lleol fwy o incwm a/neu bydd busnesau newydd yn eich ardal leol. Byddwch yn gallu dangos bod busnesau lleol wedi elwa o'r prosiect. Bydd hyn oherwydd eich bod wedi gwario eich grant yn lleol neu annog mwy o ymweliadau twristiaeth i'r ardal leol, neu oherwydd eich bod wedi darparu adeiladau newydd i fusnesau a symudodd i'r ardal neu sydd wedi ehangu eu busnes ynddi.

Sut y byddwch yn gwybod beth a gyflawnoch?

Byddwch yn gallu dangos bod y newidiadau hyn wedi digwydd yn uniongyrchol oherwydd eich prosiect drwy ddefnyddio gwybodaeth am yr economi leol cyn ac ar ôl y prosiect, gan sefydliadau fel yr awdurdod lleol neu sefydliad twristiaeth.

5. Ar ddiwedd y prosiect

Yn yr adran hon, dywedwch beth fydd yn digwydd unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau.

5a. Sut y byddwch yn cynnal canlyniadau'r prosiect ar ôl i'r grant ddod i ben, a chwrdd ag unrhyw gostau rhedeg ychwanegol?

Cyfnod datblygu:

- Rhowch fanylion byr am sut y byddwch yn cynnal canlyniadau eich prosiect, y rhai a restrwyd gennych yn Adran 4: Canlyniadau'r prosiect
- Dywedwch sut y byddwch yn rheoli a chynnal unrhyw waith a wnaethoch
- Dywedwch sut y bydd eich prosiect yn ariannol gynaliadwy
- Dywedwch sut y bwriadwch annog ystod ehangach o bobl i barhau i gyfranogi ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Cyfnod gweithredu prosiect:

- Rhowch wybodaeth fanwl am sut y byddwch yn cynnal deilliannau eich prosiect, yn unol ag unrhyw ymgynghoriad neu ymchwil a wnaethoch yn ystod eich cyfnod datblygu;
- Dywedwch wrthym os neu sut y bydd eich sefydliad yn newid yn ystod y prosiect, a sut y bydd hyn yn eich galluogi i gynnal manteision ein buddsoddiad;
- Os ydych chi'n anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth;
- Os yw'ch prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, cyfeiriwch at eich cynllun rheoli a chynnal, lle bo hynny'n berthnasol;
- Os ydych chi wedi llunio cynllun cadwraeth, cyfeiriwch at hyn, lle bo'n berthnasol;
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn parhau i ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl ar ôl i'r prosiect ddod i ben;
- Os yw'n briodol, dywedwch wrthym am unrhyw strategaethau neu bolisiau y byddwch yn eu defnyddio i gynnal canlyniadau eich prosiect

5b. Dywedwch am y prif risgiau fydd yn wynebu'r prosiect ar ôl ei gwblhau a sut y rheolir y rhain

Cyfnod datblygu:

Gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y botwm gwybodaeth ar gyfer cwestiwn 3m.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Diweddariad yn unol ag unrhyw wybodaeth rydych chi wedi'i dderbyn yn ystod eich cyfnod datblygu;

Os ydych chi'n anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth.

5c. Sut y byddwch yn sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd wrth ddarparu eich prosiect yn cael eu gwreiddio yn eich sefydliad ar ôl i'r prosiect ddod i ben?

g Er enghraifft, os bydd y prosiect yn cael ei oruchwylio gan swydd rheolwr prosiect newydd, wedi'i hariannu gan y grant, pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau y bydd y wybodaeth a'r sgiliau a ddysgodd y person yma, a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect, o fudd i'r sefydliad ar ôl i'r grant ddod i ben. Gallech ystyried cynnal sesiynau briffio staff, cyfarfodydd eraill i rannu gwybodaeth, neu hyfforddiant. Gallai hyn hefyd fod yn rhan o gynllunio eich gwerthusiad.

5d. Sut y byddwch yn gwerthuso llwyddiant eich prosiect ac yn rhannu'r dysgu?

g Rydyn ni'n disgwyl i bob ymgeisydd werthuso eu prosiect. Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Bydd hyn yn disgrifio sut y byddwch yn casglu data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn yr ydych yn ei wneud ac, yn y pen draw, i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau eich prosiect. Ar ddiwedd eich prosiect bydd angen i chi ysgrifennu gwerthusiad o'ch prosiect a'i gyflwyno gyda'ch adroddiad cwblhau terfynol.

Cyfnod datblygu:

Dylech ddarllen am werthuso ar ein [gwefan](#) .

Dywedwch am sut y byddwch yn casglu data sylfaenol yn ystod eich cam datblygu fel y gallwch werthuso'r newid y bydd eich prosiect yn ei wneud yn ystod eich cam darparu.

Cyfnod gweithredu prosiect:

Dywedwch wrthym eich dull arfaethedig, pwy fydd â chyfrifoldeb cyffredinol, a sut y byddwch chi'n rhannu'r gwerthusiad a'r gwersi a ddysgwyd gyda sefydliadau tebyg. Os ydych chi'n anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth.

6. Costau'r prosiect

Yn yr adran hon rydym eisiau gwybod faint y bydd yn ei gostio i ddatblygu a darparu eich prosiect. Cyfyngir nifer y geiriau i 30 am bob maes 'disgrifiad' wrth lenwi'r tablau costau. Dylid egluro a rhoi dadansoddiad mwy manwl o'ch costau yn y dogfennau ategol.

Wele Adran 8: Dogfennau ategol.

Nodwch y bydd eich cais am grant yn cael ei dalgrynu i'r £100 agosaf.

Rhaid i gyfanswm costau eich prosiect fod yr un fath ag incwm eich prosiect.

g Ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y penawdau cost a restrir, defnyddiwch y pennawd 'Arall'. Defnyddiwch y golofn 'Disgrifiad' i roi rhagor o fanylion am eich costau.

Os yw eich costau'n seiliedig ar gyfrifiadau, er enghraifft costau staff, rhowch y wybodaeth hon.

Os ydych chi'n gallu hawlio TAW yn ôl, ni ddylech ei gynnwys fel cost prosiect.

Y gwahaniaeth rhwng costau datblygu a gweithredu'r prosiect

Cyfnod datblygu

Rydym yn disgwyl i gostau eich cam datblygu i fod yn fanwl.

Dylai eich costau cyfnod gweithredu fod yn seiliedig ar eich amcangyfrifon gorau.

Cyfnod gweithredu prosiect

Disgwyliwn ichi ddarparu costau manwl ar gyfer eich cyfnod cyflawni.

Efallai y bydd eich costau cyfnod cyflwyno wedi newid o ganlyniad i waith cynllunio manwl ac arolygu a gwblhawyd yn ystod eich cyfnod datblygu.

Colofnau tabl

Pennawd costau

Dewiswch y pennawd costau mwyaf priodol o'r rhestr. Byddwn yn gofyn i chi adrodd ar wariant yn erbyn y penawdau hyn drwy gydol y prosiect.

Disgrifiad

Dylech ychwanegu disgrifiad cyffredinol a chynnwys mwy o fanylion yn eich taenlen ar wahân. **Cyfyngir nifer y geiriau i 30 gair ar gyfer pob disgrifiad.**

Cost

Rhowch y costau perthnasol – heb gynnwys TAW ac arian wrth gefn (arian i'w ddefnyddio ar gyfer costau ychwanegol annisgwyl yn unig).

TAW (Treth ar Werth)

Cofiwch gynnwys TAW dim ond yn y golofn hon.

Efallai na fyddwch yn talu TAW ar rai mathau o waith neu ar gyfradd isel yn unig. Dylech gysylltu â Chyllid **a Thollau EM** [i](#) gadarnhau faint o TAW y bydd angen i chi ei dalu.

Os bydd eich statws TAW yn newid fel y gallwch hawlio mwy na'r disgwyl yn ôl, rhaid i chi ddychwelyd hwn atom. Byddwn yn ystyried awdurdodi defnyddio arian wrth gefn os byddwch wedi rhoi amcan rhy isel o TAW, ond ni allwn sicrhau y bydd yn cael ei awdurdodi. Mae felly'n bwysig cynnwys y swm cywir o TAW wrth wneud cais i ni.

Dylech sicrhau bod pob dyfynbris a gewch yn dangos yn glir a yw TAW wedi'i chynnwys neu beidio.

Rhesi tablau (penawdau costau)

g Ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt yn dod o dan y penawdau cost a roddir, defnyddiwch y pennawd 'Arall'. Defnyddiwch y golofn 'Disgrifiad' i roi mwy o fanylion am eich costau.

Os yw eich costau'n seiliedig ar gyfrifiadau, er enghraifft costau staff, rhwch y wybodaeth yma.

Ffioedd proffesiynol

Dylai ffioedd fod yn unol â chanllawiau proffesiynol – er enghraifft, ffioedd RIBA – a bod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir.

Yn eich taenlen ar wahân, rhaid i chi ddefnyddio llinell ar wahân ar gyfer pob ymgynghorydd.

Costau staff newydd

Dylech gynnwys costau contractau tymor penodol newydd, secondiadau (pobl a drosglwyddir dros dro i'ch sefydliad) a chostau staff llawrydd i helpu i ddatblygu'r prosiect.

Peidiwch â chynnwys costau talu am hyfforddeion yn y rhan yma. Yn eich taenlen ar wahân, rhaid i chi ddefnyddio llinell ar wahân ar gyfer pob aelod newydd o staff.

Rhaid i chi hefyd hysbysebu pob swydd staff prosiect yn agored, gyda'r eithriadau isod:

- mae gennych aelod o staff hollol gymwys ar eich llyfrau y byddwch yn eu symud i swydd gyda'r prosiect (rhaid i chi er hynny ddarparu swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd hon)
- rydych yn ymestyn oriau aelod o staff hollol gymwys ar eich llyfrau fel y medrant weithio ar y prosiect Yn yr achos hwn byddwn yn talu am gost yr oriau ychwanegol a dreuliodd ar y prosiect a bydd angen i chi ddisgrifio eu rôl i ni.
- os ydych yn fudiad gwirfoddol ac yn cynnwys cyfran o amser aelod o staff i gyfrifo Adennill Costau Llawn

Os ydych yn symud aelod o staff sydd eisoes ar eich llyfrau i swydd wedi'i chreu gan y prosiect, gallwn naill ai dalu am gost yr aelod staff neu am y gost o lenwi eu swydd flaenorol.

Dylai'r cyflogau i gyd fod yn seiliedig ar ganllawiau sector neu swyddi tebyg mewn mannau eraill.

Recriwtio

Gall hyn gynnwys costau hysbysebu a theithio. Rydyn ni'n disgwyl i'ch sefydliad gadw at arferion adnoddau dynol da a dilyn pob cyfraith berthnasol.

Costau eraill

Dylid cynnwys yr holl gostau eraill sy'n hysbys ar y pwynt hwn.

Adennill Costau Llawn

Mae mwy o wybodaeth am Adennill Costau Llawn ar ein [gwefan](#) .

Arian Wrth Gefn

Dylech wneud yn siŵr eich bod ond yn cynnwys arian wrth gefn yn y rhan yma ac nad yw'n cael ei ddsbarthu ar draws penawdau cost eraill yn y cais.

Dylai faint o arian wrth gefn y byddwch yn ei neilltuo adlewyrchu:

- lefel y sicrwydd sydd gennych ynghylch amcangostau eich prosiect;
- y cam gwaith dylunio neu ddatblygu a gwblhawyd;
- amserlen y prosiect ac unrhyw gyfyngiadau arni fel terfynau amser disymud; a
- y risg yn ymwneud â'r math o brosiect yr ydych yn ei gyflawni.

Fel arfer byddwn yn disgwyl mwy o arian wrth gefn yn y cyfnod datblygu nag yn y cyfnod gweithredu oherwydd y dylai risgiau'r prosiect leihau wrth i chi ddatblygu eich prosiect.

Gallwch gyfrifo faint o arian wrth gefn sy'n briodol i'w gynnwys:

Fel canran gyffredinol o amcangost eich prosiect, wedi'i meincnodi yn erbyn prosiectau tebyg a gwblhawyd yn ddiweddar i sicrhau ei fod yn briodol, neu;

Fel canran arian wrth gefn wahanol ar gyfer pob elfen gost fawr sy'n gysylltiedig â'r prosiect (er enghraifft, datblygu'r dyluniad, cynllunio a chaniatadau, gwaith adeiladu lle bo'n berthnasol) i adlewyrchu'r gwahanol risgiau a'r cynnydd a wneir gyda'r agweddau hyn ar y prosiect.

Byddwn ond yn cytuno y gallwch ddefnyddio eich arian wrth gefn os gallwch ddangos bod hynny'n gam lliniaru a gynlluniwyd yn erbyn risg neu broblem wedi'i hadnabod ar gyfer y prosiect, neu lle mae ei angen i ateb angen annisgwyl sydd wedi codi a fyddai, heb ei ddatrys, yn effeithio ar sgôp, pwrpas neu amserlen eich prosiect.

Cyfraniadau heb fod yn arian parod

Gallai fod yn unrhyw beth sydd ei angen ar gyfer y prosiect nad oes raid i chi dalu amdano (e.e. llogi ystafell neu gyfarpar). Gallwn ond derbyn cyfraniadau heb fod yn arian parod os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol a allai fod wedi bod yn rhan o gyllideb eich prosiect.

Rhaid cynnwys cyfraniadau heb fod yn arian parod yn adran gostau ac adran incwm eich ffurflen gais. Y rheswm yw oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y costau hyn a'ch cyfraniad.

Amser gwirfoddolwyr: sef yr amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i ddarparu eich prosiect. Gallai gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad. Ni ddylech gynnwys costau amser y bobl fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywys).

Defnyddiwn gyfradd safonol i gyfrifo gwerth amser eich gwirfoddolwyr:

- **Gwirfoddolwr proffesiynol** (er enghraifft, cyfrifydd neu athro/athrawes) – £50 yr awr
- **Gwirfoddolwr medrus** (er enghraifft, arwain taith dywys) – £20 yr awr
- **Gwirfoddolwr** (er enghraifft, clirio safle neu stiward mewn digwyddiad) – £10 yr awr

Rhaid cynnwys amser gwirfoddolwyr yn adran gostau ac adran incwm eich ffurflen gais. Y rheswm yw oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth yr amser hwn a'ch cyfraniad.

6b. Incwm cam datblygu

Dywedwch am unrhyw incwm o ffynonellau cyllid eraill yr ydych yn disgwyl ei dderbyn i'ch helpu i gyflawni'r prosiect.

Cofiwch: mae pob cais am grant yn cael ei dalgrynu'n awtomatig i lawr i'r £100 agosaf. O gofio hyn, dylech wneud yn siŵr bod cyfanswm incwm y cam datblygu'n cyfateb yn union i gyfanswm costau'r cam datblygu, neu ni fydd y system yn gadael i chi symud i'r cam nesaf.

g Defnyddiwch y golofn 'Disgrifiad' i roi mwy o fanylion am y ffynhonnell gyllid.

Cyfyngir nifer y geiriau i 30 gair ar gyfer pob disgrifiad.

Sicrhawyd:

Wrth "sicrhawyd", golygwn:

- arian yn eich banc wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y prosiect hwn;
- arian grant wedi'i gynnig yn ffurfiol.

Arian parod

- Derbyniwn gyllid arian parod gan unrhyw ffynhonnell gyhoeddus, elusennol neu breifat, yn cynnwys rhaglenni Ewropeaidd.
- Gallwch ddefnyddio cyllid o ddsbarthwr Loteri arall i gyfrannu tuag at eich prosiect, fel cyllid partneriaeth Fodd bynnag ni all gyfrif tuag at eich isafswm cyfraniad o 5% neu 10%, sy'n gorfod cynnwys cyfraniadau o'ch ffynonellau eich hun neu o rai eraill, heb gynnwys y Loteri Genedlaethol.
- Nid oes raid i'r holl gyfraniadau ariannol hyn fod yn eu lle pan fyddwch yn gwneud cais i ni. Ond rhaid iddynt fod yn eu lle erbyn i chi fod yn barod i wneud cais am ganiatâd i ddechrau.
- Byddwn yn asesu a yw eich disgwyliadau cyllid partneriaeth yn realistig.

6c. Crynodeb ariannol y cam datblygu

g Cyfrifir canran y grant ar sail faint o incwm y mae'r prosiect yn ei dderbyn o ffynonellau cyllid eraill.

Cofiwch: Bydd yr union ganran yn cael ei chyfrifo.

6d. Costau cyfalaf y cam darparu

Yn cynnwys unrhyw waith cyfalaf i asedau treftadaeth, yn ogystal â dehongli, a chynhyrchu allbynnau digidol.

Pris prynu eitemau neu eiddo

Ar gyfer pob eitem dreftadaeth a brynwch.

Gwaith trwsio a chadwraeth

Yn cynnwys cost gwaith trwsio, cadwraeth neu i adfer eitem, adeilad neu safle treftadaeth.

Gwaith adeiladu newydd

Yn cynnwys costau adeiladu (llafur a deunyddiau) ar gyfer unrhyw adeilad newydd neu estyniad ar adeilad presennol.

Gwaith cyfalaf arall

Yn cynnwys costau ailffitio adeilad, dehongli newydd neu am wneud a gosod arddangosiadau newydd ar gyfer arddangosfa.

Allbynnau digidol

Yn cynnwys cost unrhyw beth sy'n cael ei greu mewn fformat digidol a ddyluniwyd i roi mynediad at dreftadaeth a/neu i helpu pobl i ddysgu am dreftadaeth.

Cyfarpar a deunyddiau

Yn cynnwys yr holl gyfarpar a deunyddiau'n ymwneud â gwaith trwsio, cadwraeth ac adeiladu. Peidiwch â chynnwys deunyddiau'n ymwneud â hyfforddiant yn y rhan yma.

Eraill

Rhestrwch unrhyw eitemau eraill y credwch eu bod yn gostau cyfalaf.

Ffioedd proffesiynol ar gyfer unrhyw un o'r uchod

Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am ffi benodol i helpu gyda chynllunio a darparu gwaith cyfalaf eich prosiect. Gallai gynnwys rheolwr prosiect, penseiri neu syrfewr meintiau.

6e. Costau gweithgareddau'r cam darparu

Yn cynnwys popeth y bwriadwch ei wneud yn y prosiect na restrwyd o dan gostau cyfalaf.

Costau staff newydd

Am wybodaeth am swyddi staff newydd, wele'r nodyn cymorth ar gyfer cwestiwn 7a.

Hyfforddiant i staff

Yn cynnwys cost yr holl hyfforddwy ac adnoddau er mwyn gallu cynnal gweithgareddau i helpu staff i ennill sgiliau newydd neu well.

Lleoliadau hyfforddiant y talwyd amdanynt

Yn cynnwys bwrsariau neu daliadau i hyfforddeion ynghyd â'r holl adnoddau angenrheidiol i gynnal gweithgareddau i helpu hyfforddeion i ennill sgiliau newydd neu well. Er enghraifft, costau achredu, ffioedd hyfforddwy, cyfarpar ac unrhyw ddrillad arbenigol.

Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr

Mae hyn yn cynnwys cost yr holl adnoddau er mwyn gallu cynnal gweithgareddau i helpu gwirfoddolwyr i ennill sgiliau newydd neu well.

Teithio ar gyfer staff

Gallai hyn gynnwys costau teithio i safle neu adeilad. Dylid cyfrifo costau teithio ar sail 45c y filltir.

Costau teithio a chostau eraill gan wirfoddolwyr

Gallai hyn gynnwys bwyd, teithio ac unrhyw gostau eraill i sicrhau nad yw gwirfoddolwyr ar eu colled. Dylid cyfrifo costau teithio yn y car ar sail 45c y filltir.

Mae hyn hefyd yn cynnwys costau prynu a llogi cerbydau, cyfarpar a deunyddiau'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a ddarperir gan eich gwirfoddolwyr yn ystod y prosiect.

Cyfarpar a deunyddiau

Gallai enghreifftiau gynnwys gwisgoedd hanesyddol, hetiau caled i fynd ar safle, deunyddiau celf neu daflenni a chyhoeddiadau. Peidiwch â chynnwys deunyddiau'n ymwneud â hyfforddiant neu wirfoddolwyr yn y rhan yma.

Aral

Yn cynnwys unrhyw gostau eraill fel bwyd ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau dysgu neu logi adeiladau. Rhaid disgrifio'r costau'n glir.

Ffioedd proffesiynol ar gyfer unrhyw un o'r uchod

Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am ffi benodol i helpu gyda chynllunio a darparu gweithgareddau eich prosiect. Gallai hyn gynnwys ymgynghorwyr neu artistiaid a storiwyr.

6f. Cam darparu – costau eraill

Recriwtio

Rhaid i chi recriwtio'ch rheolwr prosiect yn defnyddio proses ddedhol fyr a phriodol.

Cyhoedduswydd a hyrwyddo

Gallwn dalu am ddeunyddiau hyrwyddo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect.

Os rhoddwn grant i chi, rhaid i chi gydnabod a rhoi cyhoedduswydd i hyn fel bod gymaint o bobl â phosib yn dod i wybod am fanteision arian treftadaeth y Loteri.

Mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn cydnabod cefnogaeth y Loteri Genedlaethol a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar ein [gwefan](#).

Gwerthuso

Rhaid i chi werthuso eich prosiect ac argymhellwn eich bod yn neilltuo digon o arian ar gyfer hyn yn y rhan yma. Gall staff yn eich sefydliad wneud hyn, neu gan ddibynnu ar ba mor fawr a chymhleth yw'r prosiect, efallai y byddwch am gyflogi rhywun i helpu.

Argymhellwn gyllidebu ar gyfer gwerthuso fel a ganlyn. Dyma'r lleiaf sy'n ofynnol:

- Dylai prosiectau rhwng £250,000 a £1 m ganiatáu cyllideb o rhwng 2% a 7% o gyfanswm costau'r prosiect ac ystyried defnyddio'r gwerthuswyr allanol annibynnol.

- Dylai prosiectau dros £1 filiwn ganiatáu cyllideb o hyd at 7% o gyfanswm costau'r prosiect a bob amser ystyried defnyddio gwerthuswyr allanol annibynnol. Ni ddylai cyllidebau gwerthuso ar gyfer prosiectau dros £1m fod ddim llai nag £20,000. Os nad yw costau gwerthusiad ar y lefel hon yn briodol ar gyfer eich prosiect, esboniwch pam yn y disgrifiad pennawd costau.

Eraill

Dylech gynnwys unrhyw gostau eraill. Yn eich taenlen ar wahân, dylech roi disgrifiad clir o'r costau.

Adennill Costau Llawn

Dylech ddarllen am Adennill Costau Llawn yn y Cyflwyniad.

Arian Wrth Gefn

Gall eich arian wrth gefn leihau pan fyddwch chi'n gwneud cais am eich cam gweithredu prosiect fel y dylai risgiau leihau wrth i chi ddatblygu eich prosiect.

Chwyddiant

Dylech gynnwys lwfans ar gyfer chwyddiant am unrhyw eitemau a allai gynyddu mewn cost dros gyfnod eich prosiect.

Rhaid i'r cyfrifiad fod mor realistig â phosib ac ymwneud ag amserlen eich prosiect.

Ar gyfer elfennau adeiladu prosiect dylid defnyddio mynegai penodol y sector perthnasol (e.e. BCIS) i gyfrifo'r lwfans chwyddiant oherwydd mae chwyddiant y sector adeiladu fel arfer yn wahanol i chwyddiant cyffredinol yr economi. Os ydych yn ansicr cofiwch ofyn am gyngor gan Syrffewr Meintiau.

Costau rheoli a chynnal a chadw uwch (pum mlynedd ar y mwyaf)

Yn eich taenlen ar wahân, ychwanegwch linellau ar wahân ar gyfer:

Costau staff newydd y flwyddyn (enw a chost pob swydd), hyn a hyn o flynyddoedd (5 ar y mwyaf).

Costau eraill uwch y flwyddyn, hyn a hyn o flynyddoedd (5 ar y mwyaf)

Mae costau rheoli a chynnal a chadw uwch yn dechrau pan fydd y gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau.

Cyfraniadau heb fod yn arian parod

Am wybodaeth am gyfraniadau heb fod yn arian parod, wele'r nodyn cymorth ar gyfer cwestiwn 7a.

Amser gwirfoddolwyr

Dylech gynnwys amser y gwirfoddolwyr i'ch helpu i ddarparu eich prosiect.

6g. Incwm cam darparu

Cymrwch sylw: mae pob cais am grant yn cael ei dalgrynu'n awtomatig i lawr i'r £100 agosaf. O gofio hyn, dylech wneud yn siŵr bod cyfanswm incwm y cyfnod gweithredu prosiect cyfateb yn union i gyfanswm costau'r cyfnod gweithredu prosiect, neu ni fydd y system yn gadael i chi symud i'r cam nesaf.

6h. Crynodeb ariannol o'r cam darparu

6i. Os ydych wedi cynnwys Adennill Costau Llawn, sut y cyfrifwyd y gyfran sy'n ymwneud â'ch prosiect?

7. Eich sefydliad

7a. Cyfeiriad eich sefydliad

g Bydd cyfeiriad eich sefydliad yn ymddangos yn awtomatig o'r wybodaeth a roesoch wrth greu eich cyfrif.

7b. Statws cyfreithiol eich sefydliad

Rhoddir rhestr o wahanol fathau o sefydliadau. Dewiswch y mwyaf priodol.

Awdurdod lleol

Sefydliad cyhoeddus arall

Elusen gofrestrdig

Cwmni cofrestrdig neu gwmni buddiannau cymunedol (CIC)

Sefydliad ffydd neu eglwysig

Grŵp cymunedol neu wirfoddol

Arall

g Awdurdod lleol

Wrth awdurdod lleol, golygw'n gorff gweinyddol mewn llywodraeth leol, er enghraifft cyngor lleol.

Sefydliad cyhoeddus arall

Dewiswch yr opsiwn hwn os nad ydych yn awdurdod lleol, ond rydych yn adrodd i'r llywodraeth (e.e. ysgol y wladwriaeth neu brifysgol).

7c. Dywedwch beth yw prif bwrpas a gweithgareddau rheolaidd eich sefydliad

g Gofynnwn am y wybodaeth yma i'n helpu i asesu a yw'r prosiect sydd gennych mewn golwg yn cyfateb yn dda i brif bwrpas ac amcanion y sefydliad.

- disgrifiwch bwrpas ac amcanion eich sefydliad
- disgrifiwch weithgareddau rheolaidd eich sefydliad ac eglurwch sut y maen nhw'n cael eu hariannu
- dywedwch am faint a strwythur staffio eich sefydliad

- lle bo'n berthnasol, disgrifiwch y sgiliau, gwybodaeth neu'r profiad sydd gan aelodau eich bwrdd
- disgrifiwch drefniadau llywodraethu eich sefydliad

Faint o bobl y mae eich sefydliad yn eu cyflogi?

Dywedwch sut yr ydych yn adolygu'r trefniadau llywodraethu ac uwch-reoli ar gyfer eich treftadaeth

g Dywedwch :

- pryd oedd y tro diwethaf i archwiliad o sgiliau eich uwch-reolwyr a'ch ymddiriedolwyr gael ei wneud
- pryd oedd y tro diwethaf i'r trefniadau llywodraethu gael eu hadolygu
- ydy'r holl argymhellion o'r adolygiad wedi cael eu gweithredu?

A oes gennych gynlluniau i adolygu eich trefniadau llywodraethu i sicrhau bod gennych yr arbenigedd iawn i ddarparu ac yna cynnal eich prosiect ar ôl i'r grant ddod i ben? Oes/Nag oes

Os oes: Pryd y bwriadwch gyflawni'r adolygiad hwn?

Faint o aelodau bwrdd neu Ymddiriedolwyr sydd gan eich sefydliad?

Faint y gwariodd eich sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

Faint o gronfeydd anghyfyngedig sydd yng nghronfeydd ariannol eich sefydliad?

A oes gennych bolisi cronfeydd ariannol? Efallai y byddwn am weld hwn. Oes/Nag oes

7d. Ydy eich sefydliad yn un o'r canlynol? Os ydyw, rhowch y wybodaeth y gofynnwn amdani

Elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban – rhowch eich rhif cofrestru

Elusen wedi'i chydabod gan Gyllid a Thollau EM yng Ngogledd Iwerddon – rhowch eich rhif cofrestru

Cwmni neu gwmni buddiannau cymunedol (CIC) – rhowch eich rhif cofrestru

7e. Ydy'r sefydliad wedi cofrestru ar gyfer TAW? Ydy/Nac ydy

Os ydyw: Rhowch eich rhif TAW os gwelwch yn dda.

7f. Ydych yn credu bod cenhadaeth ac amcanion eich sefydliad yn:

Os yw eich sefydliad yn diffinio ei hun a'i genhadaeth fel bod â ffocws ar un o'r canlynol, dewiswch yr opsiynau sy'n berthnasol. ✓

Dewiswch yr opsiynau sy'n berthnasol:

grwpiau du neu o leiafrifoedd ethnig

anabled

LGBT+

merched/menywod

pobl ifanc

Ac yng Ngogledd Iwerddon yn unig:

pobl o gymunedau Pabyddol yn bennaf

pobl o gymunedau Protestant yn bennaf

7g. Manylion y prif berson cyswllt

Bydd y manylion hyn yn ymddangos yn awtomatig o'r wybodaeth a roesoch wrth gofrestru.

g Rhaid i'r person a enwir fod wedi cael caniatâd swyddogol gan eich sefydliad i fod y prif berson cyswllt gyda ni. Byddwn yn anfon yr holl ohebiaeth am y cais hwn i'r person yma, i'r cyfeiriad ebost a roddwyd.

Ydy cyfeiriad y prif berson cyswllt yr un fath â'r cyfeiriad yn 7a? Ydy/Nac ydy

Os na: Rhowch gyfeiriad y prif berson cyswllt.

g Bydd y rhif ffôn yn ystod y dydd a'r e-bost yn ymddangos yn awtomatig o'r wybodaeth a roesoch wrth greu eich cyfrif.

Dywedwch am unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y person cyswllt

Ar gyfer prosiectau a leolir yng Nghymru, pa iaith y dylem ei defnyddio i gyfathrebu â'r prif berson cyswllt?

Saesneg

Cymraeg

Y ddwy (dwyieithog)

Os nad yw'r prif berson cyswllt wedi'i awdurdodi i lofnodi ar gyfer eich sefydliad, dylech gynnwys manylion llofnodwr awdurdodedig isod:

Enw

Swydd

Rhif ffôn cyswllt

7h. Ydy eich sefydliad yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol? Os ydyw, rhowch fanylion i ni (er enghraifft, enw Trydar eich sefydliad)

8. Dogfennau ategol

Isod rhoddir rhestr o'r dogfennau ategol y bydd angen eu darparu ar gyfer y rhaglen grantiau hon. Os nad yw'r ddogfen ategol yn berthnasol i'r prosiect sydd gennych mewn golwg, dewiswch Amherthnasol.

Ni ddylid cyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol na restrir isod.

Lle bo'n bosib, dylid darparu pob dogfen mewn fformat digidol (naill ai fel atodiad i'r ffurflen gais neu wedi'i hanfon fel e-bost i'ch swyddfa leol). Rhaid i ni dderbyn yr holl ddogfennau ategol, p'un ai mewn fformat digidol neu gopi caled, erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd.

Dogfennau ategol y cyfnod datblygu

1. Dogfen lywodraethu (er enghraifft, y cyfansoddiad)

Nid oes raid i ni weld eich dogfen lywodraethu:

- os ydych yn sefydliad cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol)

Dylai eich dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- enw ac amcanion eich sefydliad
- datganiad sy'n rhwystro eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, pe bai eich sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusenol neu ddi-wneud-elw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad pryd y cafodd ei mabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu berson cymwys arall)

Os nad oes angen i chi gyflwyno dogfen lywodraethu, cofiwch sicrhau bod eich prosiect yn unol ag amcanion eich sefydliad.

2. Cyfrifon y tair blynedd diwethaf a chyfrifon rheoli'r flwyddyn gyfredol

Caiff cyfrifon archwiliedig eu harchwilio'n annibynnol a dylid eu cadarnhau'n flynyddol. Hoffem hefyd weld eich cyfrifon rheoli.

Os ydych yn sefydliad newydd ac nid oes gennych gyfrifon archwiliedig, dylech gyflwyno eich tri datganiad banc diweddaraf neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol).

3. Taenlen yn rhoi dadansoddiad o gostau

Rhaid i chi gyflwyno dadansoddiad manwl o'r costau yn eich cais.

Mae'r ddogfen hon yn orfodol i bob ymgeisydd.

4. Cytundebau partneriaeth (lle bo'n berthnasol)

Os bwriadwch weithio gyda sefydliad arall i gyflawni eich prosiect, hoffem weld eich cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen honno ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a chael ei llofnodi gan y partion i gyd. Mae enghraifft o gytundeb partneriaeth ar gael ar ein gwefan, a allai fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn. Os yw eich partner yn berchen ar y dreftadaeth yr ydych yn gweithio arni, byddwn fel arfer yn gofyn iddynt hwythau hefyd gytuno i delerau'r grant.

Nid oes raid i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod sefydliad arall yn darparu rhan sylweddol o'ch prosiect.

5. Swydd-ddisgrifiadau (lle bo'n berthnasol)

Os bwriadwch recriwtio aelod newydd o staff i helpu i ddarparu eich prosiect, gan gynnwys prentis, dylech gyflwyno swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd honno.

Cofiwch: Rhaid i chi hysbysebu pob swydd staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn ymestyn oriau aelod staff presennol neu'n symud aelod staff presennol i swydd gyda'r prosiect.

6. Briffiau ar gyfer gwaith sydd i'w gomisiynu'n fewnol neu'n allanol (lle bo'n berthnasol)

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith y bwriadwch ei gomisiynu yn eich cam datblygu. Os byddwch yn comisiynu gwaith (er enghraifft gan artist, cwmni ymgynghorol neu bensaer), dylech gyflwyno briff.

Dylai'r briff ddisgrifio'r gwaith, pa mor hir y bydd yn ei gymryd a faint y bydd yn ei gostio. Mae templed briff ar gael ar ein gwefan.

Ar gyfer ffioedd dros £10,000 rhaid gofyn am dri thendr cystadleuol neu ddyfynbris; am ffioedd dros £50,000 rydyn ni'n disgwyl i chi ddangos tystiolaeth o'r broses tendro cystadleuol.

7. Lluniau a delweddau

Lle bo'n berthnasol, dylech gynnwys delweddau sy'n helpu i egluro eich prosiect. Er enghraifft, os yw'r prosiect yn ymwneud ag archif ffotograffiaeth leol, byddwch efallai am gynnwys rhai delweddau o'r casgliad. Neu, os yw eich prosiect yn ymwneud â gardd gymunedol, gallech ddarparu map.

Os byddwch yn ceisio gwella tirlun neu ardal gadwraeth, dylech gynnwys map o'r ardal yn dangos lleoliad yr holl brosiectau y byddwch yn eu darparu.

8. Llythyrau cefnogaeth (chwech ar y mwyaf, lle bo'n berthnasol)

Mae llythyrau cefnogaeth yn ffordd dda o ddangos i ni eich bod wedi siarad â phobl eraill a bod ganddynt ddi-ddordeb ac wedi ymrwymo i'ch prosiect.

Dylech gyflwyno dim mwy na chwe llythyr o gefnogaeth gan y bobl sy'n rhan o'ch prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogi cyffredinol. Er enghraifft os bwriadwch gynnal gweithdai mewn clybiau ieuencid lleol bydd llythyr o gefnogaeth yn dangos i ni eu bod eisiau cymryd rhan.

Lle bo'n bosib, dylai'r llythyrau fod ar bapur pennawd neu wedi'u llofnodi.

9. Cyfrifo Adennill Costau Llawn (lle bo'n berthnasol)

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu am gyfran o orbenion eich sefydliad sy'n gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu am gyfran o gost aelod presennol o staff, cyn belled nad ydynt yn gweithio'n llwyr ar y prosiect. Rydyn ni'n disgwyl i chi gyfrifo'r cyfraniad hwn yn defnyddio Adennill Costau Llawn.

Os ydych yn cynnwys Adennill Costau Llawn yng nghyllideb eich prosiect, rhaid i chi gynnwys dogfen sy'n amlinellu eich cyfrifiad.

Mae taenlen i'ch helpu i gyfrifo'r ffigur hwn i'w chael ar ein gwefan.

10. Cynllun busnes

Hoffem weld copi o gynllun busnes presennol eich sefydliad. Os nad oes gennych gynllun busnes, dylech gyflwyno'r ddogfen gynllunio a ddefnyddiwch i reoli eich treftadaeth. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli nifer o safleoedd, neu'n Awdurdod Lleol er enghraifft, dylech gyflwyno'r dogfennau cynllunio mwyaf perthnasol i'r dreftadaeth.

11. Arolwg cyflwr

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chadwraeth treftadaeth, rhaid i chi gyflwyno arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall fel Cynllun Cadwraeth drafft neu amlinellol. Dylai'r ddogfen hon ddweud wrthym am gyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd angen ei wneud i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da. Er enghraifft, os oes gwaith cadwraeth i'w wneud ar gyfer cofeb ryfel leol, bydd angen i chi wybod beth yw ei chyflwr presennol a pha waith trwsio sydd ei angen. Dylai'r arolwg neu'r adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith sydd mewn golwg, h.y. pa waith sydd fwyaf brys ac sydd angen ei wneud ar fyrder.

12. Dogfennau perchnogaeth (lle bo'n berthnasol)

Os oes unrhyw waith cyfalaf i'w wneud gennych, neu os ydych yn bwriadu prynu tir/adeiladau/casgliadau, dylech gyflwyno copiau o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol (e.e. dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu ddogfen brydles neu benawdau'r telerau).

Os na fyddwch yn cwrrd â'n gofynion perchnogaeth eglurwch sut y bwriadwch fynd i'r afael â hyn yn eich cam datblygu.

Dylech atodi'r dogfennau ategol perthnasol i'ch ffurflen gais. Gallwn dderbyn y rhan fwyaf o'r fformatau ffeil arferol.

Wrth gyflwyno dogfennau ategol, defnyddiwch enwau'r dogfennau a restrir uchod fel y gallwn adnabod pob dogfen yn hawdd. Gallai peidio â dilyn y fformat hwn ohirio eich cais.

Ni fyddwn yn dechrau asesu eich cais hyd nes y byddwch wedi cyflwyno'r holl ddogfennau ategol perthnasol.

Dogfennau ategol y cyfnod gweithredu prosiect

1. Cynllun gweithgaredd neu gynllun gweithredu Ardal

Dogfennau ategol gorfodol.

2. Amserlen y prosiect

Perthnasol i bob prosiect.

3. Llif arian ar gyfer y prosiect

Dylai hyn fod yn fanwl ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac yn amlinellol ar gyfer y blynyddoedd eraill.

4. Rhagolygon incwm a gwariant am y 5 mlynedd ar ôl cwblhau

Yn berthnasol i bob prosiect.

5. Strwythur rheoli'r prosiect

Dylai'r ddogfen hon ddisgrifio strwythur rheoli'r prosiect fel y gwyddom pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut fyddwch yn rheoli newid yn ystod y prosiect. Yn berthnasol i bob prosiect.

6. Taenlen yn rhoi dadansoddiad o gostau

Rhaid i chi gyflwyno dadansoddiad manwl o'r costau yn eich cais.

Yn berthnasol i bob prosiect.

7. Cyfrifo Adennill Costau Llawn (lle bo'n berthnasol)

Dylid diweddarau'r cyfrifiad hwn ar sail y gwaith a wnewch yn eich cam datblygu.

Mae taenlen i'ch helpu i gyfrifo'r ffigur hwn i'w chael ar ein gwefan.

Briffiau ar gyfer gwaith i'w gomisiynu'n fewnol ac allanol. Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith y bwriadwch ei gomisiynu yn eich cam darparu.

8. Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir yn fewnol neu yn allanol

Mae Briffiau yn disgrifio unrhyw waith rydych chi'n bwriadu ei gomisiynu yn ystod cyfnod gweithredu eich prosiect. Os ydych chi'n comisiynu gwaith (ee gan artist neu bensaer) yna dylech gyflwyno briff.

Dylai'r briff ddisgrifio'r gwaith, pa mor hir y byddant yn ei gymryd, a faint y byddant yn ei gostio. Gallwch ddod o hyd i dempled briff ar ein gwefan.

Ar gyfer ffioedd dros £10,000, dylech gael 3 tendr neu ddyfynbris cystadleuol, am ffioedd dros £50,000 byddwn yn disgwyl ichi ddarparu prawf o'r broses dendro gystadleuol.

9. Swydd-ddisgrifiadau

Os bwriadwch recriwtio aelod newydd o staff ar gyfer eich cam darparu, dylech gyflwyno swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd honno.

10. Cynllun Busnes

Hoffem weld cynllun busnes diweddar ar gyfer eich sefydliad sy'n ymgorffori'r prosiect yr ydych yn gwneud cais amdano. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli nifer o safleoedd, neu'n Awdurdod Lleol er enghraifft, dylech ddiwygio'r dogfennau cynllunio mwyaf perthnasol i'r dreftadaeth yr ydych yn gofyn am arian ar ei chyfer, gan gynnwys gweithgareddau'r prosiect.

11. Delweddau

Os yw'n berthnasol, rhowch ddelweddau sy'n helpu i ddangos eich prosiect.

Er enghraifft, os yw eich ffocws prosiect yn archif ffotograffiaeth leol, efallai y byddwch am ddarparu ychydig o ddelweddau o'r casgliad. Neu, os yw'ch prosiect yn cynnwys gardd gymunedol, efallai y byddwch am ddarparu map.

Os ydych chi'n ceisio gwella tirwedd neu ardal gadwraeth, dylech gynnwys map o'r ardal sy'n dangos lleoliad yr holl brosiectau y byddwch yn eu darparu.

12. Siart llif yn crynhoi'r broses benderfynu ar gyfer grantiau 3ydd parti (lle bo'n berthnasol)

13. Dogfennau perchnogaeth (lle bo'n berthnasol)

Os ydych am wneud unrhyw waith cyfalaf, dylech gyflwyno copïau o ddogfennau perchnogaeth perthnasol (e.e. gweithred, prydles neu benawdau'r telerau).

Dogfennau rheoli a chynnal a chadw (lle bo'n berthnasol)

Manyleb ddylunio (lle bo'n berthnasol)

Cynllun dehongli (lle bo'n berthnasol)

Cynllun cadwraeth manwl (lle bo'n berthnasol)

9. Gwybodaeth ychwanegol a datganiad

Pwrpas y rhan yma o'r ffurflen yw casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i adrodd ar y gwahanol sefydliadau a ariannwn.

Un o amcanion ein gwaith yw, erbyn 2024, y bydd treftadaeth yn fwy cynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i greu darlun cywir o amrywiaeth y sefydliadau sy'n gwneud cais i ni. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata demograffig a roddwch i ni'n ddiennw ac yn ei ddefnyddio i oleuo ein polisi ac yn ein hadroddiadau cyhoeddus.

Dylech gynnwys yr holl wybodaeth sydd gennych ar gael (wedi'i chasglu drwy fonitro ffurfiol, nid ar sail tybiaethau neu wybodaeth anffurfiol). Peidiwch â darparu data os nad ydych yn siŵr.

Wrth gyflwyno eich ffurflen ar-lein, gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi darllen, deall a'ch bod yn cytuno â'r pethau a nodir yn y datganiad.

Cysylltu â ni

Mae mwy o wybodaeth am sut i gysylltu â ni ar gael ar ein [gwefan](#). 

Os am dderbyn mwy o wybodaeth am ein proses o wneud cwyn, ewch i'n [gwefan](#). 